# Unigolyn Hunangyflogedig a Chwmni Gwasanaeth sy'n Gyfrannwr ar yr Awyr Telerau ac Amodau

## 1. Contract

1.1 Ar y gwahanol achlysuron pan fydd y BBC am dderbyn gwasanaeth gennych chi (pob un yn **"Archeb"**), bydd manylion penodol yr Archeb honno wedi'u nodi yn nogfennau archebu'r BBC a anfonir atoch Chi neu (os yw'n berthnasol) ar y ddalen flaen sydd ynghlwm wrth y telerau ac amodau hyn (y **"Dogfennau Archebu"**). Gyda'i gilydd, mae'r Dogfennau Archebu a'r telerau ac amodau hyn yn ffurfio'r Contract rhyngoch Chi a'r BBC.

1.2 Ar gyfer Archebion "awto-dalu", ystyrir eich bod Chi wedi derbyn y Contract wrth ddechrau darparu'r Cyfraniad, neu os na fyddwch chi'n dychwelyd eich Ffi o fewn 28 diwrnod ar ôl derbyn y taliad, pa un bynnag yw'r cynharaf.

1.3 Ar gyfer pob Archeb arall, ystyrir eich bod Chi wedi derbyn y Contract ar y dyddiad rydych Chi'n cadarnhau eich bod yn derbyn y Dogfennau Archebu.

## 2. Parti contractio'r BBC

2.1 Yn y telerau ac amodau hyn, ystyr **"y BBC"** yw'r aelod o grŵp y BBC a enwir yn y Dogfennau Archebu.

## 3. Chi

*Archebion ar gyfer unigolyn:*

3.1 Mae **"Chi"** yn golygu'r unigolyn a enwir yn y Dogfennau Archebu (y **"Cyfrannwr"**).

*Archebion ar gyfer cwmni neu sefydliad (gan gynnwys partneriaeth) am wasanaethau'r Cyfrannwr:*

3.2 Mae **"Chi"** yn golygu'r cwmni/sefydliad a enwir yn y Dogfennau Archebu, a bydd y cymalau ychwanegol canlynol yn berthnasol:

(a) Rydych Chi'n gwarantu, yn sicrhau ac yn mynegi mai Chi sy'n rheoli gwasanaethau'r Cyfrannwr.

(b) Rydych Chi'n cydnabod y bydd rhwymedigaethau, ymrwymiadau, gwarantau a sylwadau ar neu gan y Cyfrannwr yn cael eu dehongli fel cytundeb gennych Chi i sicrhau y bydd y Cyfrannwr yn cyflawni'r rhwymedigaethau, yr ymrwymiadau, y gwarantau a'r sylwadau hynny.

(c) Mewn perthynas â chymal 7.2 (*Ildio hawliau moesol*), rydych Chi'n gwarantu eich bod Chi wedi sicrhau bod y Cyfrannwr wedi ildio'n ddi-droi'n-ôl unrhyw hawliau moesol a allai fod gan y Cyfrannwr o dan ddeddfau unrhyw awdurdodaeth.

(d) Os ydych Chi'n gwmni, byddwch Chi'n dal yn gorfforedig ac wedi cofrestru yn y DU ar gyfer yr holl Gyfnod ac ar ôl diddymu byddwch Chi'n trosglwyddo unrhyw rwymedigaethau sy'n weddill drwy hyn i'r Cyfrannwr.

(e) Os ydych Chi'n bartneriaeth, bydd pob partner yn atebol ar y cyd ac yn unigol am eich rhwymedigaethau Chi o dan y Contract hwn.

(f) Os bydd y BBC yn gofyn i chi, byddwch Chi'n sicrhau bod y Cyfrannwr yn gweithredu llythyr gwarant ar ffurf a ddarperir gan y BBC (**"Llythyr Gwarant"**), ac os bydd angen Llythyr Gwarant, rydych Chi'n cydnabod na fydd y BBC yn atebol o gwbl am dalu'r Ffi oni bai a nes bydd y Llythyr Gwarant hwnnw wedi cael ei weithredu'n briodol gan y Cyfrannwr a'i ddychwelyd i'r BBC. Os bydd mwy nag un Cyfrannwr, bydd angen i bob Cyfrannwr lofnodi Llythyr Gwarant.



© BBC 2026

3.3 Os ydych Chi o dan 18 oed mae hwn yn Gontract: (a) y mae'r BBC a'ch rhiant/gwarcheidwad Chi yn ymrwymo iddo ar eich rhan Chi; a (b) mae'n amodol ar gael unrhyw drwydded angenrheidiol o dan reoliadau perthnasol sy'n ymwneud â thrwyddedu plant.

## 4. Cyfraniad

4.1 Mae **"Cyfraniad"** yn golygu pob cyfraniad, yn ogystal â chynhyrchion y gwasanaethau, a wneir a/neu a gyflwynir gennych Chi mewn cysylltiad â'r Contract hwn, gan gynnwys Eich perfformiad (yn ogystal ag ymarferion) a deunydd llafar, ysgrifenedig ac artistig (gan gynnwys recordiadau sain a fideo ohonynt) a ddarperir gennych Chi; a lle mae'r BBC wedi comisiynu recordiadau gennych Chi, byddwch Chi'n caffael bod recordiadau o'r fath yn perthyn i'r BBC. At ddibenion cyfraith hawlfraint yr Unol Daleithiau, ystyrir y Cyfraniad fel "gwaith neu weithiau a wneir i'w llogi" ar gyfer y BBC.

4.2 Rydych Chi'n ymrwymo i ddarparu'r Cyfraniad i'r BBC fel sy'n ofynnol o dan y Contract hwn, ac i gadw at delerau ac amodau'r Contract a'u cyflawni.

4.3 Rydych Chi'n ymrwymo i fod yn bresennol fel y cytunwyd mewn cysylltiad â'r Cyfraniad, ac yn achos unrhyw Gyfraniad o flaen cynulleidfa neu a allai gael ei ffilmio, ac rydych Chi'n ymrwymo i gydymffurfio â gofynion y BBC ynghylch edrychiad (gan gynnwys colur a dillad).

4.4 Os bydd y Cyfraniad yn cynnwys unrhyw ddeunydd ysgrifenedig, rydych Chi'n ymrwymo i sicrhau y bydd unrhyw ddeunydd ysgrifenedig o'r fath yn cydymffurfio â gofynion y BBC (fel y bydd y BBC yn eich hysbysu amdanynt) o ran cynnwys ac amseroedd cyflawni ac, os bydd angen, y byddwch Chi'n darparu deunydd ysgrifenedig ychwanegol i'w ddefnyddio mewn cyhoeddiadau sy'n ategol i'r Rhaglen(ni) ar yr un sail.

*Gwarantau*

4.5 Rydych Chi'n ymrwymo, yn gwarantu ac yn mynegi:

(a) bod y Cyfraniad:

(i) yn waith gwreiddiol gennych Chi;

(ii) ddim yn cynnwys, ac na fydd yn cynnwys, unrhyw beth sy'n torri unrhyw hawlfraint nac unrhyw hawliau eraill nac unrhyw drydydd parti, ac y byddwch Chi yn datgelu i'r BBC unrhyw ddeunydd hawlfraint sydd wedi'i gynnwys yn y Cyfraniad lle nad Chi yw'r perchennog;

(iii) ddim yn cynnwys deunydd a fydd yn dwyn anfri ar y BBC nac yn ddifenwol nac yn arwain at ddirmyg llys; ac

(iv) ddim yn cynnwys hysbysebion nac unrhyw beth o natur hysbysebu;

(b) na fyddwch Chi'n darlledu nac yn awdurdodi darlledu neu ddefnydd arall o'r holl Gyfraniad nac unrhyw ran ohono;

(c) eich bod Chi'n meddu ar yr holl sgiliau, gallu, gwybodaeth a phrofiad angenrheidiol i gyflawni a darparu'r Cyfraniad fel cyfrannwr o'r radd flaenaf yn gydwybodol ac mewn modd proffesiynol bob amser, gan gydymffurfio'n llwyr ag unrhyw geisiadau rhesymol gan y BBC;

(d) y byddwch Chi'n defnyddio pob gofal a diwydrwydd priodol wrth ddarparu'r Cyfraniad;

(e) os yw'r Cyfraniad yn cynnwys darparu gwasanaethau fel arbenigwr ar bwnc, y byddwch Chi'n defnyddio'r gofal, y sgiliau a'r diwydrwydd priodol y byddai'n rhesymol eu disgwyl gan ddarparwr cymwys gwasanaethau o'r



© BBC 2026

fath, a'ch bod Chi, ac y byddwch Chi'n parhau, yn gwbl ymwybodol o'r safon uchaf yn eich maes arbenigedd Chi i lefel a fydd yn bodloni'r BBC; ac

(f) os yw'r Cyfraniad yn cynnwys darparu gwasanaethau cyfieithu, y bydd eich cyfieithiad Chi yn gyfieithiad gwir a chwbl gywir o'r deunydd a ddarparwyd i Chi ei gyfieithu, ac yn cyrraedd safon sy'n dderbyniol gan y BBC.

## 5. Ffi

5.1 Wrth ystyried y Cyfraniad a ddarperir gennych Chi a'r hawliau a roddir fel y nodir yng nghymal 7 (*Hawliau*), pan fydd hawliau o'r fath yn codi, mae'r BBC yn cytuno i dalu i Chi y ffi a nodwyd yn y Dogfennau Archebu (y **"Ffi"**).

5.2 Os yw'n berthnasol, ni fydd y Ffi yn cynnwys TAW, oni bai y nodir yn wahanol. Dim ond os ydych Chi wedi cofrestru ar gyfer TAW, ac wedi cydymffurfio â holl ofynion gweithdrefnol perthnasol y BBC, y bydd TAW yn daladwy.

5.3 Pan fydd asiant yn cael ei enwi yn y Dogfennau Archebu, rydych Chi'n awdurdodi'r BBC i dalu'r Ffi (gan gynnwys TAW) i'r asiant hwnnw ac rydych Chi'n derbyn y bydd unrhyw daliad o'r fath yn golygu bod unrhyw hawliad yn erbyn y BBC wedi cael ei gyflawni'n llawn ac yn ddilys mewn perthynas ag unrhyw arian a dalwyd felly.

5.4 Rydych Chi'n cydnabod bod y Ffi'n cynnwys cydnabyddiaeth deg a chyfartal mewn perthynas ag unrhyw achos o rentu neu fenthyca'r Cyfraniad.

5.5 Mae'r broses o dalu'r Ffi yn amodol arnoch Chi'n darparu i'r BBC yr wybodaeth gyfredol a chywir sydd ei hangen ar y BBC i brosesu'r taliad ac i gydymffurfio â'i rwymedigaethau statudol, gan gynnwys eich rhif Yswiriant Gwladol Chi neu wybodaeth gyfatebol, eich enw cyfreithiol Chi a'ch dyddiad geni Chi, ymysg pethau eraill.

5.6 Gall y Dogfennau Archebu ddangos bod y Ffi'n daladwy mewn rhandaliadau rheolaidd. Mewn achos o'r fath, bydd y Ffi yn cael ei chysoni cyn diwedd y Cyfnod. Bydd unrhyw ordaliadau yn cael eu tynnu o randaliadau y rhagwelir y byddant yn ddyledus ar ddiwedd y Cyfnod, a bydd tandaliadau yn daladwy o fewn 30 diwrnod i dderbyn anfoneb mewn perthynas â'r un a gyflwynwyd gennych Chi ar ddiwedd y Cyfnod.

## 6. Treth Incwm a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol

6.1 Chi eich hun sy'n gyfrifol am Eich gwaith cynllunio ariannol a'ch cyngor treth, ac nid yw'r BBC yn derbyn unrhyw atebolrwydd yn hyn o beth. Cynigir yr Archeb yng nghyswllt y Cyfraniad yn unig ac nid mewn unrhyw gyd-destun ehangach, y tybir bod gennych Chi a'ch cynghorwyr Chi wybodaeth amdano.

*Archebion ar gyfer unigolyn*

6.2 Rhaid i Chi gydymffurfio, a Chi yn unig sy'n gyfrifol am gydymffurfio, ag unrhyw a phob deddf a rheoliad perthnasol pan rydych yn atebol am dalu treth neu gyfraniadau yswiriant gwladol o ran y gydnabyddiaeth a gafwyd o dan y Contract hwn.

6.3 Os bydd tribiwnlys treth CThEF neu gorff dyfarnol arall sydd ag awdurdodaeth briodol yn penderfynu nad ydych wedi cydymffurfio â'r rhwymedigaethau hyn, bydd gan y BBC yr hawl i derfynu'r Contract hwn yn syth, yn amodol ar dalu cyfran deg o'r Ffi(oedd) a bennir gan y BBC ar ôl trafod gyda Chi am waith a wnaed yn barod cyn y dyddiad terfynu. Wedi hynny, ni fydd gennych Chi unrhyw hawliad pellach yn erbyn y BBC a bydd yr hawliau a roddir o dan gymal 7 isod (*Hawliau*) yn goroesi'r terfyniad hwnnw.

6.4 Os bydd CThEF neu gorff neu awdurdod perthnasol arall yn gwneud unrhyw hawliad yn erbyn y BBC mewn perthynas â'ch rhwymedigaethau treth neu



© BBC 2026

yswiriant gwladol Chi, rhaid i Chi indemnio a digolledu'r BBC yn llawn rhag hawliad(au) o'r fath i'r graddau mwyaf posibl.

*Archebion â chwmni*

6.5 Os byddwch Chi (a, lle bo hynny'n berthnasol, y Cyfrannwr) yn atebol i dalu treth yn y DU mewn perthynas â chydnabyddiaeth a dderbynnir o dan y Contract hwn, rhaid i Chi sicrhau eich bod Chi, a bod y Cyfrannwr, yn cydymffurfio bob amser â Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 a phob statud a rheoliad arall sy'n ymwneud â threth incwm mewn perthynas â'r gydnabyddiaeth honno.

6.6 Os byddwch Chi (a, lle bo hynny'n berthnasol, y Cyfrannwr) yn atebol i wneud Cyfraniadau Yswiriant Gwladol mewn perthynas â chydnabyddiaeth a dderbynnir o dan y Contract hwn, rhaid i Chi sicrhau eich bod Chi, a bod y Cyfrannwr, yn cydymffurfio bob amser â Deddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992 (SSCBA) a phob statud a rheoliad arall sy'n ymwneud â Chyfraniadau Yswiriant Gwladol mewn perthynas â'r gydnabyddiaeth honno.

6.7 Caiff y BBC, ar unrhyw adeg yn ystod y Cyfnod, ofyn i Chi ddarparu gwybodaeth sy'n dangos sut rydych Chi (a, lle bo hynny'n berthnasol, y Cyfrannwr) yn cydymffurfio â chymalau 6.5 a 6.6 uchod, neu pam nad yw'r cymalau hynny'n berthnasol.

6.8 Gall cais o dan gymal 6.7 uchod amlinellu'r wybodaeth y mae'n rhaid i Chi (neu'r Cyfrannwr) ei darparu ac erbyn pryd y mae'n rhaid darparu'r wybodaeth honno.

6.9 Caiff y BBC derfynu'r Contract hwn os:

(a) yn achos cais a grybwyllwyd yng nghymal 6.7 uchod:

(i) eich bod Chi heb ddarparu gwybodaeth mewn ymateb i'r cais o fewn cyfnod rhesymol; neu

(ii) eich bod Chi'n darparu gwybodaeth sy'n annigonol i ddangos naill ai sut rydych Chi (a, lle bo hynny'n berthnasol, y Cyfrannwr) yn cydymffurfio â chymalau 6.5 a 6.6 uchod neu pam nad yw'r cymalau hynny'n berthnasol i Chi;

(b) yn achos cais a grybwyllwyd yng nghymal 6.7 uchod, y byddwch Chi'n methu darparu'r wybodaeth benodedig o fewn y cyfnod penodedig; neu

(c) os bydd y BBC yn derbyn gwybodaeth sy'n dangos, ar unrhyw adeg pan fydd cymal 6.5 a/neu 6.6 yn berthnasol i Chi (a, lle bo hynny'n berthnasol, y Cyfrannwr), bod naill ai Chi, y Cyfrannwr, neu'r Cyfrannwr na chithau yn cydymffurfio â'r cymal hwnnw/cymalau hynny.

6.10 Wedi hynny, ni fydd gennych unrhyw hawliad pellach yn erbyn y BBC a bydd yr hawliau a roddir o dan gymal 7 isod (Hawliau) yn goroesi terfyniad o'r fath.

6.11 Caiff y BBC ddarparu unrhyw wybodaeth y mae'n ei derbyn o dan y cymal hwn i CThEF at ddibenion casglu a rheoli'r refeniw y mae'n gyfrifol amdano.

6.12 Byddwch Chi'n sicrhau bod telerau ysgrifenedig rhyngoch Chi a'r Cyfrannwr cyn llofnodi'r Contract hwn, sy'n gorfodi'r Cyfrannwr i gydymffurfio'n bersonol â gofynion cymalau 6.5, 6.6, 6.7 a 6.8 uchod mewn perthynas ag unrhyw gydnabyddiaeth y bydd y Cyfrannwr yn ei derbyn mewn cysylltiad â'r Contract hwn.

6.13 Os bydd CThEF neu gorff neu awdurdod perthnasol arall yn gwneud unrhyw hawliad yn erbyn y BBC mewn perthynas â'ch rhwymedigaethau treth neu yswiriant gwladol Chi neu rwymedigaethau treth neu yswiriant gwladol y



© BBC 2026

Cyfrannwr, rhaid i Chi a/neu'r Cyfrannwr indemnio a digolledu'r BBC yn llawn rhag hawliad(au) o'r fath i'r graddau mwyaf posibl.

**7. Hawliau**

7.1 Rydych Chi'n aseinio gyda gwarant teitl llawn i'r BBC yr holl hawlfraint, hawliau perfformwyr a'r holl hawliau cysylltiedig eraill (gan gynnwys unrhyw hawliau rhentu a benthyca) at bob diben (gan gynnwys defnydd yn yr holl gyfryngau sydd ar gael nawr neu yn y dyfodol) yn y Cyfraniad ledled y Bydysawd am byth.

7.2 Rydych yn rhoi hawl digyfyngiad i'r BBC olygu, copïo, newid, ychwanegu at, tynnu o, addasu neu gyfieithu'r Cyfraniad, ac, o safbwynt y Cyfraniad a'r Rhaglen(ni) a fydd yn cynnwys y Cyfraniad, rydych Chi yn ildio'n ddi-droi'n-ôl unrhyw "hawliau moesol" sydd gennych Chi o bosibl o dan ddeddfau unrhyw awdurdodaeth.

**8. Cyfnod**

8.1 Bydd grym ac effaith y Contract yn parhau'n llawn am y cyfnod a nodir o dan y 'Dyddiadau Archebu' yn y Dogfennau Archebu (y **"Cyfnod"**).

8.2 Os bydd unrhyw rwymedigaethau wedi eu cyflawni eisoes gan unrhyw barti i unrhyw raddau, ystyrir i bob diben bod y rhwymedigaethau hynny wedi cael eu cyflawni yn unol â darpariaethau'r Contract hwn ac yn amodol arnynt.

8.3 I osgoi amheuaeth, mae'r rhwymedigaethau o dan gymalau 3.2(d) *(Gwarant Cwmni)*, 6 *(Treth Incwm a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol)*, 16 *(Didyniadau)*, 19 *(Gwybodaeth gyfrinachol)*, 21 *(Indemniad)*, 22 *(Peidio ag aseinio*), 24 *(Trydydd partïon)*, 29 *(Diogelu data)* a 33 *(Cyfraith lywodraethol)* yn ymestyn y tu hwnt i'r Cyfnod.

**9. Cymalau ychwanegol sy'n berthnasol i Archebion tymor hwy**

Ar gyfer Archebion o dri mis neu fwy, mae'r telerau ychwanegol canlynol yn berthnasol:

*Argaeledd*

9.1 Ar ôl cytuno â'r BBC ar ddyddiadau ac amseroedd darparu'r Cyfraniad (**"Diwrnodau Galw"**), byddwch Chi'n sicrhau eich bod Chi ar gael i'r BBC ar y Diwrnodau Galw hynny. Gellid cytuno ar unrhyw ddiwrnod o'r flwyddyn fel Diwrnod Galw (gan gynnwys gwyliau cyhoeddus) ac mae diwrnod yn ddiwrnod llawn, oni nodir yn wahanol yma, ac yn para cyhyd ag y mae'r amserlen gynhyrchu yn pennu.

9.2 Ar gyfer Cyfraniadau cyflwyno rheolaidd, bydd Diwrnodau Galw yn cael eu nodi yn y Dogfennau Archebu fel patrwm dangosol o shifftiau cyflwyno a ddarperir mewn lleoliad cynhyrchu.

9.3 Weithiau, a lle bo hynny'n rhesymol, efallai y gofynnir i Chi gyflwyno ar leoliad (bydd y BBC yn talu am unrhyw deithio neu lety ychwanegol mewn perthynas â hynny). Pan fydd angen rhagor o amser i gyflawni'r Archeb ar gais y BBC, er enghraifft, os gofynnir i Chi deithio neu weithio y tu hwnt i'ch Diwrnodau Galw a gytunwyd, efallai y bydd gennych Chi hawl, lle bo hynny'n rhesymol, i gael digollediad ychwanegol y dylid cytuno arno ymlaen llaw gyda'r Golygydd neu'r Uwch Gynhyrchydd (neu ei enwebai).

9.4 Byddwch yn sicrhau bod modd cysylltu â chi a'ch bod ar gael yn ôl yr angen i ddarparu'r Cyfraniad ar unrhyw Ddiwrnodau Galw fel y nodwyd yn y Dogfennau Archebu. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, mae'r ymrwymiad lleiaf (sut bynnag y caiff ei ddehongli, hynny yw, p'un ai o ran dyddiau neu sioeau neu benodau ac ati) yn seiliedig arnoch Chi'n sicrhau eich bod ar gael i gyflawni'r ymrwymiad lleiaf, ac os na fyddwch Chi ar gael felly, am unrhyw reswm, bydd y Ffi (gan gynnwys unrhyw warant isafswm) yn cael ei lleihau'n gymesur.



© BBC 2026

*Gwasanaethau ategol sydd wedi'u cynnwys yn y Cyfraniad*

9.5 Er mwyn darparu'r Cyfraniad, byddwch chi'n darparu'r holl wasanaethau ategol rhesymol (rhaid i Chi wneud rhai ohonynt yn Eich amser eich hun ac ysgwyddo'r gost Eich hun), fel:

(a) paratoi, bod yn bresennol, ymddangos yn y golwg ac allan o'r golwg / ar yr awyr ac oddi ar yr awyr;

(b) darparu dillad priodol (fel y disgrifir isod), yn achos Archeb yn y golwg;

(c) mewnbwn creadigol ar gyfer cynhyrchu cynnwys (gan gynnwys, pan gytunir bod hyn yn rhan o'ch rôl, ymchwilio, ysgrifennu a golygu Eich cyfraniadau/blogiau llafar ac ysgrifenedig Eich hun a chynnwys cysylltiedig arall, gan eu hadolygu yn ôl y gofyn o bryd i'w gilydd);

(d) teithio fel y mae'r BBC o'r farn sy'n rhesymol angenrheidiol (a bydd gennych Chi drwy gydol y Cyfnod basbort dilys, a byddwch yn cydweithredu'n llawn â'r BBC i gael unrhyw drwyddedau gwaith a fisâu ac ati sy'n angenrheidiol i ddarparu'r Cyfraniad); ac

(e) y wasg, hyrwyddo a thrêls.

*Dillad priodol*

9.6 Serch darpariaethau cymal 11 *(Safonau golygyddol, rheoleiddio darlledu, gwrthdaro rhwng buddiannau):*

(a) mae "dillad priodol" y cyfeirir ato uchod yn eithrio dillad a roddwyd i Chi neu a werthwyd i Chi am gost is gan y brand/gwneuthurwr/siop, oni bai fod y gostyngiad pris ar gael yn gyffredinol i aelodau o'r cyhoedd; ac

(b) er eglurder, ac mewn perthynas ag ymddangosiadau yn y golwg yn unig, os oes gennych Chi unrhyw drefniadau ynghylch cyflenwi dillad i'w defnyddio am ddim neu am bris gostyngol neu'n gyfnewid am fuddion eraill, fel un o ragamodau'r Contract hwn mae'n rhaid i Chi fod wedi rhoi gwybod i'r BBC am hynny cyn derbyn yr Archeb. Chewch Chi ddim gwisgo dillad o'r fath wrth ddarparu'r Cyfraniad.

*Darparu gwasanaethau i drydydd partïon*

9.7 Rydych Chi'n cytuno, er mwyn cadw gwerth yr Archeb hon i'r BBC, na ddylech Chi, heb ymgynghori'n briodol â'r BBC, ddarparu'r un gwasanaethau neu gyfraniadau na rhai tebyg i gynhyrchydd na darlledwr sain a/neu weledol arall pan fyddai cynnyrch y gwasanaethau neu'r cyfraniadau hynny: (i) ar gael i gynulleidfaoedd yn y DU neu yng Ngweriniaeth Iwerddon ar yr un pryd neu tua'r un pryd â'r Rhaglen; a/neu (ii) yn gwrthdaro â chymal 11 (*Safonau golygyddol, rheoleiddio darlledu a gwrthdaro rhwng buddiannau*).

*Atal dros dro*

9.8 Mae gan y BBC hawl i atal y Contract hwn am hyd at 3 mis os yw'n credu'n rhesymol eich bod Chi:

(a) wedi ymddwyn mewn modd sydd, neu y gellid ystyried ei fod, yn mynd yn groes i gymal 11 *(Safonau golygyddol, rheoleiddio darlledu a gwrthdaro rhwng buddiannau)* neu gymal 12 *(Ymddygiad a ddisgwylir)* a/neu a allai ddwyn anfri ar y BBC; neu

(b) wedi torri'r Contract hwn yn sylweddol.

9.9 Mewn amgylchiadau o'r fath:

(a) bydd y Contract yn cael ei atal dros dro ar unwaith, gyda'r BBC yn rhoi rhybudd ysgrifenedig i Chi;



© BBC 2026

(b) caiff y BBC, yn ôl ei ddisgresiwn absoliwt, leihau'r Ffi yn unol â swm sy'n gymesur â'r cyfnod atal dros dro;

(c) bydd telerau'r Contract hwn yn dal yn berthnasol, ac eithrio nad oes rhaid i'r BBC dalu'r Ffi, ac nad oes rhaid i chi ddarparu'r Cyfraniad;

(d) bydd gan y BBC, yn ôl ei ddisgresiwn llwyr, yr hawl i atal y Contract hwn dros dro, ac ni fydd yn cyfyngu mewn unrhyw ffordd ar hawliau'r BBC mewn rhannau eraill o'r Contract hwn;

(e) bydd gan y BBC yr hawl i derfynu'r Contract hwn yn ystod neu erbyn diwedd y cyfnod atal dros dro;

(f) caiff y BBC, yn ôl ei ddisgresiwn absoliwt, ddod â'r cyfnod atal dros dro i ben yn gynnar drwy roi pythefnos o rybudd ysgrifenedig i Chi;

(g) er eglurder, os yw Eich ymddygiad honedig hefyd yn destun ymchwiliad gan yr heddlu (**"Ymchwiliad"**) a bod y Contract hwn yn cael ei atal dros dro yn hytrach na'i derfynu, ni fydd gennych Chi hawl i'r gyfran o'r Ffi a allai fel arall fod wedi cael ei thalu yn ystod y cyfnod atal dros dro, hyd yn oed os na fydd cyhuddiadau'n cael eu dwyn neu os bydd cyhuddiadau'n cael eu gollwng a/neu os cewch Chi eich dyfarnu'n ddieuog o'r holl gyhuddiadau;

(h) os nad yw canlyniad unrhyw Ymchwiliad a/neu ganlyniad erlyniad troseddol yn hysbys cyn diwedd y cyfnod atal dros dro, bydd hyn yn ddigwyddiad *force majeure* o dan gymal 20 *(Terfynu)*.

9.10 I osgoi unrhyw amheuaeth, os caiff y Contract hwn ei atal dros dro o dan y cymal hwn:

(a) bydd yr holl hawliau a ganiateir drwy hyn a/neu a roddir i'r BBC yn dal wedi eu breinio i'r BBC;

(b) bydd rhwymedigaethau cymal 19 *(Gwybodaeth gyfrinachol)* a 21 *(Indemniad)* yn dal yn berthnasol;

(c) bydd unrhyw Ffi sydd heb ei thalu am unrhyw ran o'r Cyfraniad a ddarparwyd cyn y cyfnod atal dros dro yn dal yn daladwy;

(d) ni fydd unrhyw gyfnod atal dros dro yn ymestyn y tu hwnt i Gyfnod y Contract.

## 10. Rheolaeth olygyddol y BBC

10.1 Rydych Chi'n cydnabod bod gan y BBC reolaeth olygyddol dros holl gynnwys y BBC, yn unol â'i rwymedigaethau rheoleiddiol o dan God Darlledu Ofcom, (**"Cod Ofcom"**) a Siarter a Chytundeb y BBC (gyda'i gilydd, **"Siarter y BBC"**).

10.2 Rydych Chi'n cydnabod y gall teitl(au) y Rhaglen a dyddiad ac amser darlledu/rhyddhau'r Rhaglen(ni) newid yn ôl disgresiwn y BBC.

10.3 Rydych Chi'n cydnabod nad oes unrhyw rwymedigaeth i ddarlledu na defnyddio'r Cyfraniad mewn ffordd arall, ac ni fydd y BBC yn atebol i Chi am golli cyhoeddusrwydd neu fel arall o ganlyniad.

## 11. Safonau golygyddol, rheoleiddio darlledu, gwrthdaro rhwng buddiannau

11.1 Drwy dderbyn yr Archeb hon, rydych Chi'n gwarantu bod gennych Chi ddealltwriaeth dda a chyfredol o'r deddfau a'r rheoliadau y mae'n rhaid i ddarlledwyr sy'n cael eu trwyddedu gan Ofcom gydymffurfio â nhw, gan gynnwys Cod Ofcom ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.

11.2 Rydych Chi'n cydnabod bod Siarter y BBC yn mynnu bod y BBC yn cadw at y safonau a sefydlwyd yng Nghod Ofcom a bod y BBC, yn unol â hynny, yn cynnwys


© BBC 2026

y safonau hynny a'r egwyddorion rheoleiddio eraill y mae'n rhwym wrthynt yn ei Ganllawiau Golygyddol a'r canllawiau cysylltiedig (gyda'i gilydd, **y "Safonau Golygyddol"**), ac rydych Chi'n cadarnhau eich bod Chi'n gyfarwydd â'r dogfennau hynny ac yn eu deall (wrth iddynt gael eu diwygio a'u diweddaru o bryd i'w gilydd).

11.3 Ystyrir y bydd y Contract hwn yn cael ei dorri'n sylweddol os bydd Eich gweithredoedd neu eich anweithredoedd Chi yn golygu bod y BBC yn torri ei rwymedigaethau rheoleiddiol fel y nodir yn y ddarpariaeth hon.

11.4 Rydych Chi'n cydnabod bod enw da'r BBC am ddidueddrwydd ac uniondeb ac am fod yn annibynnol ac yn weddus yn gwbl sylfaenol, ac felly'n cytuno na fydd unrhyw ran o'r Cyfraniad na'ch Gweithgarwch a'ch ymddygiad Chi yn peryglu unrhyw rai o'r uchod, na'u tanseilio na chodi amheuaeth yn eu cylch, nac yn ymddangos eu bod yn eu peryglu neu'n codi amheuaeth yn eu cylch, a rhaid iddynt beidio â dwyn anfri ar y BBC na'i gynnwys.

11.5 Ar sail gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd amdanoch Chi a'ch gweithgareddau busnes a'ch buddiannau allanol Chi, mae'r BBC yn fodlon na ddylai unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau godi mewn perthynas â'r Archeb hon. Fodd bynnag, un o ragamodau'r Contract hwn yw eich bod Chi wedi datgan unrhyw wrthdaro posibl yn unol ag Adran 15 o'r Safonau Golygyddol.

11.6 Os byddwch Chi, yn ystod y Cyfnod, yn ystyried ymgymryd ag unrhyw waith neu weithgareddau eraill rydych Chi'n credu a allai achosi, neu y gellid ystyried eu bod yn achosi, gwrthdaro o'r fath, dylech Chi ei godi gyda'ch prif gyswllt golygyddol Chi a bydd y BBC yn darparu arweiniad arbenigol i hwyluso cydymffurfedd parhaus. Os bydd gwrthdaro'n bodoli neu'n codi, mae'n bosibl na fydd y BBC yn gallu defnyddio'r Cyfraniad o gwbl, neu ran ohono, a byddai'r BBC yn trin hynny fel achos lle rydych chi wedi torri'r Contract hwn yn sylweddol.

11.7 Bydd y cymal 11 hwn yn parhau mewn grym: (a) drwy gydol y Cyfnod os yw'r Cyfraniad cyfan wedi bod ar gael i'r cyhoedd erbyn y dyddiad hwnnw ac nad yw'r Cyfraniad ar gael mwyach ar wasanaethau ar-lein y BBC; neu (b) tan y cynharaf o'r canlynol: (i) 30 diwrnod ar ôl y dyddiad y mae'r Cyfraniad cyfan wedi bod ar gael i'r cyhoedd ac nad yw ar gael mwyach ar wasanaethau ar-lein y BBC; a (ii) 12 mis ar ôl diwedd y Cyfnod, ac eithrio pan fydd amgylchiadau lle gallai'r BBC ofyn am gyfnod hirach i sicrhau uniondeb golygyddol parhaus. Mewn achosion o'r fath, bydd y partïon yn cytuno rhyngddynt yn ddidwyll ar amrywiad priodol.

**12. Ymddygiad a ddisgwylir**

12.1 Yn ystod eich ymgysylltiad, rhaid i Chi gydymffurfio â Chod Ymddygiad y BBC, Gwerthoedd y BBC a'r polisïau a'r canllawiau sy'n berthnasol i'ch ymgysylltiad Chi, sydd i'w gweld yma: Polisïau a Chanllawiau. Os byddwch chi'n gweld pobl eraill sy'n gweithio yn y BBC yn ymddwyn mewn ffordd nad yw'n cyd-fynd â Chod Ymddygiad y BBC a Gwerthoedd y BBC, gallwch godi hyn yn unol â'r Cod Ymddygiad. Mae'n rhaid bodloni'r safonau ymddygiad hyn, a gallai peidio â gwneud hynny olygu bod y contract hwn wedi cael ei dorri'n sylweddol.

**13. Iechyd**

13.1 Rydych Chi'n gwarantu nad ydych Chi'n gwybod am unrhyw gyflwr iechyd a allai effeithio ar eich gallu Chi i ddarparu'r Cyfraniad neu a allai atal y BBC rhag cael yswiriant cynhyrchu ar delerau safonol.

13.2 Rydych Chi'n cytuno i ddychwelyd (o fewn 7 diwrnod) unrhyw fath o ddatganiad iechyd y bydd y BBC yn ei gyflwyno i Chi i'w lenwi.



© BBC 2026

13.3 Yn ôl y gofyn, byddwch Chi'n cael archwiliad meddygol gan archwilydd meddygol cymwys (ar gost y BBC) pan fydd y BBC yn credu'n rhesymol fod hynny'n angenrheidiol. Ni fydd unrhyw beth yn y cymal hwn yn effeithio ar rwymedigaethau'r BBC o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 nac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall.

**14. Cyfarpar/ yswiriant**

14.1 Os yw'n berthnasol, Chi sy'n gyfrifol am reoli, diogelu, yswirio, cynnal a chadw, a gofalu am unrhyw gyfarpar a deunyddiau a ddarperir gennych Chi er mwyn darparu'r Cyfraniad.

14.2 Byddwch Chi yn cadw at yr holl reolau a rheoliadau diogelwch y bydd y BBC yn eich hysbysu amdanynt drwy gydol y Cyfnod.

14.3 Mae manylion trefniadau Yswiriant perthnasol y BBC a allai fod ar gael i Chi (yn amodol ar feini prawf cymhwysedd) wrth weithio i'r BBC o dan y Contract hwn i'w gweld yma ar Borth Gweithwyr Llawrydd y BBC ar wefan y BBC.

**15. Yr hawl i weithio**

15.1 Mae unrhyw Archeb a wneir o dan y telerau hyn yn amodol ar fod gennych Chi hawl i weithio yn y DU, ac ar gynnal yr hawl honno. Os na fyddwch chi'n darparu tystiolaeth foddhaol o'ch hawl i weithio yn y DU cyn dechrau ar eich ymgysylltiad, gallai hynny arwain at derfynu'r contract.

**16. Didyniadau**

16.1 Gall y BBC ddidynnu o'r Ffi unrhyw symiau, nad ydynt yn destun anghydfod fel arall, sy'n ddyledus gennych Chi i'r BBC neu o dan gytundeb i ddarparu cyfraniadau neu wasanaethau, boed yn gysylltiedig â'r Contract hwn neu fel arall.

16.2 Os yw'n ofynnol i'r BBC, yn unol ag unrhyw ddeddf, rheol neu reoliad perthnasol yn awr neu yn y dyfodol ar unrhyw gorff llywodraethol neu weinyddol arall cymwys, ddidynnu neu gadw arian yn ôl o unrhyw swm neu symiau, mewn perthynas â threth neu fel arall, sy'n daladwy i Chi yn unol â'r Contract, bydd y BBC:

(a) yn meddu ar hawl i dalu'r swm neu'r symiau dan sylw ar ôl didynnu'r swm hwnnw sy'n cael ei gadw'n ôl neu ei ddidynnu;

(b) yn talu'n brydlon i'r awdurdod perthnasol o fewn y cyfnod a ganiateir gan y gyfraith y swm hwnnw sy'n cael ei gadw'n ôl neu ei ddidynnu; ac

(c) yn darparu tystiolaeth ysgrifenedig i Chi ei fod wedi gwneud y taliad i'r awdurdod perthnasol.

16.3 Os na fydd y BBC yn cadw'n ôl neu'n didynnu'r swm hwnnw, byddwch Chi'n talu pob ac unrhyw dreth a thâl arall sy'n daladwy oherwydd y symiau hynny a byddwch Chi'n indemnio ac yn cytuno i gadw'r BBC wedi'i indemnio'n llawn rhag ac yn erbyn unrhyw atebolrwydd neu draul mewn cysylltiad â chadw'n ôl neu ddidynnu'r swm hwnnw.

16.4 Os daw'r BBC i'r casgliad ei fod wedi methu â didynnu swm o daliad y gallai fod wedi ei ddidynnu yn unol â chymal 16.1 uchod, rydych Chi'n cytuno y bydd ganddo hawl i ddidynnu'r swm hwnnw o unrhyw daliad pellach a wneir i Chi mewn cysylltiad â'r Contract hwn, gan gynnwys drwy wrthgyfrif symiau sy'n ddyledus ganddo ac iddo. Ni fydd arfer hawliau'r BBC o dan y cymal hwn yn cyfyngu nac yn atal arfer neu arfer pellach o hawliau o'r fath nac unrhyw hawl neu ddatrysiad arall a allai fod gan y BBC.



© BBC 2026

**17. Pensiwn (dim ond yn berthnasol os yw'r contract hwn yn bensiynadwy)**

17.1 Mae'r Llywodraeth yn mynnu bod ymgysylltwyr yn darparu trefniant pensiwn yn y gweithle ar gyfer eu gweithwyr. Gelwir hyn yn 'gofrestru'n awtomatig am bensiwn' (PAE). Mae'r BBC wedi dewis NEST (Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Cenedlaethol) fel ei ddarparwr PAE. Mae'r BBC yn cadw'r hawl i ddefnyddio darparwr arall ar wahân i NEST o ran PAE unrhyw bryd yn y dyfodol.

17.2 Mae'r BBC wedi dewis gohirio cofrestru awtomatig am dri mis; felly (ar yr amod eich bod Chi'n bodloni meini prawf penodol, gan gynnwys o ran eich oedran a'ch enillion) byddwch Chi'n cael eich cofrestru â NEST yn awtomatig dri mis ar ôl dechrau'r Cyfnod. Bydd rhagor o fanylion am NEST, a fydd angen i Chi gofrestru'n awtomatig, a'r buddion pensiwn sydd ar gael i Chi yn ystod eich Archeb yn cael eu darparu i Chi ar ôl i Chi ddechrau gweithio i'r BBC. Os byddwch Chi'n cael eich cofrestru â NEST yn awtomatig, gallwch Chi ddewis optio allan o NEST ond dim ond ar ôl i Chi gael eich cofrestru'n awtomatig.

17.3 Hefyd, os oes gennych Chi dipyn o gynilion pensiwn eisoes a'ch bod wedi cofrestru ar gyfer statws Gwarchodaeth Benodol neu Warchodaeth Uwch gyda CThEF yn y gorffennol, dylech Chi fod yn ymwybodol y gallai ymuno â chynllun pensiwn gyda'r BBC wneud i Chi golli budd eich Gwarchodaeth Benodol neu Uwch yn y dyfodol. Os ydych Chi'n credu y gallai hyn fod yn berthnasol i chi, byddai'r BBC yn argymell eich bod Chi'n gofyn am gyngor ariannol annibynnol ynghylch eich buddion pensiwn a'ch sefyllfa o ran treth.

17.4 Rydych Chi'n ymrwymo i roi Eich enw cyfreithiol i'r BBC er mwyn iddo allu cyflawni ei rwymedigaethau o dan ddeddfwriaeth Cofrestru'n Awtomatig am Bensiwn.

**18. Gwiriadau Cofnod Troseddol**

18.1 Rydych Chi'n cytuno i gael gwiriad DBS/ymaelodi â chynllun PVG os yw'r BBC yn credu bod hynny'n briodol.

**19. Gwybodaeth gyfrinachol**

19.1 Ni fyddwch Chi, ar unrhyw adeg yn ystod Cyfnod y Contract nac ar unrhyw adeg ar ôl ei derfynu, yn datgelu unrhyw wybodaeth gyfrinachol i unrhyw drydydd parti (ac eithrio eich cynghorwyr proffesiynol neu pan fydd yn ofynnol datgelu gwybodaeth yn ôl y gyfraith, corff rheoleiddiol neu lys ag awdurdodaeth gymwys), gan gynnwys telerau cyfrinachol y Contract hwn ac unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â busnes, materion a chyllid y BBC (gan gynnwys allbwn, a gwybodaeth breifat am unigolion y dewch Chi ar ei thraws yn ystod Eich Archeb). Ni fydd y cymal hwn yn cynnwys gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd neu a ddaw ar gael i'r cyhoedd wedyn ac eithrio drwy weithred neu anweithred gennych Chi.

19.2 Nid oes unrhyw beth yn y cymal hwn yn eich atal Chi rhag: (a) gwneud datgeliad cyflog perthnasol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010; na (b) gwneud datgeliad cymwys fel y'i diffinnir gan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998.

**20. Terfynu**

20.1 Heb niweidio ei hawliau terfynu eraill yn y Contract hwn, bydd gan y BBC hawl ar unrhyw adeg i derfynu'r Contract hwn:

(a) os bydd ei berfformiad yn cael ei atal oherwydd *force majeure* (gan gynnwys salwch ardystiedig neu analluogrwydd corfforol sy'n golygu nad ydych Chi'n gallu darparu rhan o'r Cyfraniad neu'r Cyfraniad cyfan);

(b) os bydd unrhyw achos arall y tu hwnt i reolaeth resymol y BBC yn atal ei berfformiad, yn amodol ar dalu cyfran deg o'r Ffi fel y pennir gan y BBC ar ôl trafod gyda Chi am waith sydd eisoes wedi'i wneud hyd at y dyddiad terfynu;

(c) os byddwch Chi'n torri amodau unrhyw un o ddarpariaethau'r Contract ac:



© BBC 2026

(i) (os oes modd unioni'r tor-amod) os na fyddwch Chi'n ei unioni cyn pen saith (7) diwrnod (neu gyfnod byrrach y byddai'n rhesymol i'r BBC ofyn amdano) ar ôl cael hysbysiad ysgrifenedig yn nodi'r tor-amod ac yn mynnu ei fod yn cael ei unioni; neu

(ii) nad oes modd unioni'r tor-amod; neu

(iii) bod y tor-amod yn un sylweddol neu'n torri amod arwyddocaol;

(d) os ydych Chi'n torri amodau dro ar ôl tro neu os ydych Chi'n peidio cadw at unrhyw un o delerau ac amodau'r Contract hwn dro ar ôl tro;

(e) os yw canlyniadau unrhyw archwiliad meddygol a gynhaliwyd o dan gymal 13 (*Iechyd*) uchod yn golygu na all y BBC gael yswiriant cynhyrchu ar delerau sy'n dderbyniol i'r BBC;

(f) os na fyddwch Chi'n derbyn gwiriad DBS neu'n ymaelodi â chynllun PVG, pa un bynnag sy'n berthnasol (pan fydd hyn yn ofynnol er mwyn darparu'r Cyfraniad);

(g) os byddwch Chi'n dioddef digwyddiad ansolfedd o dan unrhyw ddeddf sy'n ymwneud â methdaliad, ansolfedd neu ryddhad dyledwyr unrhyw le yn y byd;

(h) am unrhyw reswm arall yn amodol ar dalu'r Ffi lawn neu gynnig dyddiad(au) eraill fel y bydd y BBC yn penderfynu sy'n rhesymol.

20.2 Bydd unrhyw derfynu o dan y cymal hwn yn digwydd heb niweidio unrhyw hawliau na rhwymedïau eraill sy'n eiddo i'r BBC a'r hawliau a roddir o dan gymal 7 *(Hawliau)* mewn perthynas ag unrhyw Gyfraniad a wneir cyn y dyddiad terfynu.

**21. Indemniad**

21.1 Byddwch Chi bob amser yn indemnio'r BBC yn llawn mewn perthynas ag unrhyw ganlyniadau a allai ddilyn ar ôl i Chi dorri unrhyw rwymedigaethau neu warantau a roddwyd gennych Chi o dan y Contract hwn, yn dilyn Eich gweithredoedd neu anweithredoedd bwriadol neu esgeulus.

21.2 Bydd yr indemniadau a'r rhwymedigaethau a nodir yn y cymal hwn yn goroesi terfynu'r Contract hwn.

**22. Peidio ag aseinio**

22.1 Ni fyddwch yn aseinio, yn trosglwyddo, yn arwystlo nac yn delio mewn unrhyw ffordd arall â'r Contract hwn nac yn isgontractio eich holl rwymedigaethau Chi, nac unrhyw un o'ch rhwymedigaethau Chi, o dan y Contract hwn.

**23. Sicrwydd pellach**

23.1 Rydych yn cytuno i weithredu neu beri i bob dogfen arall o'r fath gael ei gweithredu, ac i wneud neu beri i bob gweithred a pheth pellach y gall y BBC ofyn amdanynt o bryd i'w gilydd gael ei wneud er mwyn rhoi darpariaethau'r Contract hwn ar waith, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny, breinio a sicrhau i'r BBC a'i olynwyr yn y teitl fudd llawn yr asedau, yr hawliau a'r buddion a drosglwyddir neu a roddir i'r BBC o dan y Contract hwn ac er mwyn diogelu a gorfodi'r rhain a rhoi telerau'r Contract ar waith yn llawn fel arall.

**24. Trydydd partïon**

24.1 Ac eithrio o ran aelodau grŵp cwmnïau'r BBC, nid yw'r Contract hwn yn creu nac yn casglu unrhyw hawliau o dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999, na ellir eu gorfodi gan unrhyw berson nad yw'n barti yn y Contract hwn.



© BBC 2026

**25. Toradwyedd**

25.1 Ni fydd y ffaith na ellir gorfodi unrhyw ddarpariaeth benodol o'r Contract hwn yn effeithio ar natur rwymol gweddill y Contract.

**26. Dim hawlildiad**

26.1 Ni ystyrir y bydd methiant unrhyw barti i arfer neu i orfodi unrhyw hawl a roddwyd iddo gan y Contract hwn yn golygu ildio unrhyw hawl o'r fath nac yn atal gweithredu neu orfodi hawl o'r fath ar unrhyw adeg ar ôl hynny.

**27. Cyfyngiad ar atebolrwydd**

27.1 Ni fydd y BBC yn atebol i Chi nac i'ch cynrychiolwyr cyfreithiol Chi am unrhyw golled, difrod neu anaf a achoswyd i chi'n bersonol neu i'ch eiddo mewn cysylltiad â'r Contract hwn oni bai fod hynny wedi'i achosi gan esgeulustod y BBC ac yn adferadwy ar y sail honno.

27.2 Os bydd y BBC yn torri unrhyw un o delerau'r Contract hwn, bydd eich datrysiadau cyfreithiol chi wedi eu cyfyngu i adennill iawndal yn unig ac ni fydd gennych Chi'r hawl i atal y Cyfraniad rhag cael ei gynhyrchu, ei gyfathrebu i'r cyhoedd, ei hyrwyddo na'i ddefnyddio gan y BBC neu fel yr awdurdodwyd gan y BBC.

**28. Dim partneriaeth; dim contract gwasanaeth**

28.1 Ni ystyrir y bydd unrhyw beth yn y Contract hwn yn cynnwys unrhyw barti fel asiant y parti arall nac yn creu partneriaeth, cyd-fenter neu gontract cyflogaeth rhwng y partïon ac ni allwch Chi orfodi na rhwymo'r BBC mewn unrhyw fater.

28.2 Contract am wasanaethau yw hwn, nid contract gwasanaeth, ac ni fydd y BBC yn gyfrifol am ddarparu unrhyw daliadau a hawliau cyflogaeth a/neu weithwyr statudol i Chi fel (heb gyfyngiad) gwyliau â thâl, tâl salwch, tâl mamolaeth/tadolaeth/mabwysiadu a thâl dileu swydd sut bynnag y bydd yn codi.

**29. Diogelu data**

29.1 **Eich preifatrwydd:** Mae'r BBC yn gyfrifol am drin data personol rydych chi'n ei ddarparu, gan gynnwys eich cyfraniad, yn unol â'r gyfraith diogelu data. Mae gan y BBC fuddiant dilys mewn defnyddio'ch data personol at ddibenion newyddiadurol, artistig a llenyddol ac er mwyn cyflawni eich contract gyda'r BBC a chyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol y BBC. Mae'n bosibl y byddwch hefyd yn darparu data categori arbennig neu ddata trosedd a allai gael ei ddefnyddio at ddibenion newyddiaduraeth, y celfyddydau a llenyddiaeth neu ddiben arall a ganiateir gan y gyfraith. I gael rhagor o wybodaeth am sut mae'r BBC yn defnyddio eich data personol a'ch hawliau, ewch i http://www.bbc.co.uk/contributors/privacy-notice

29.2 **Trin data personol:** Mae "Cyfraith Diogelu Data" yn golygu Deddf Diogelu Data 2018, lle bo'n berthnasol, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016/679/EU ("GDPR") a/neu GDPR fel y'i deddfir gan y Deyrnas Unedig ("GDPR y DU"), ac unrhyw ddeddfau perthnasol eraill sy'n ymwneud â phrosesu Data Personol o dan y Contract, Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig (Cyfarwyddeb CE) 2003, a'r holl reoliadau, codau ymarfer rheoleiddiol, safbwyntiau a chanllawiau cysylltiedig, gan gynnwys rhai a gyhoeddir gan y Comisiynydd Gwybodaeth.

29.3 Bydd gan gyfeiriadau at y termau "**rheolydd**", "**testun data**", "**data personol**", "**tor diogelwch data personol**", "**prosesu**" a "**prosesydd**" yr ystyron a roddir iddynt yn y Gyfraith Diogelu Data.

29.4 Rydych Chi a'r BBC yn cydnabod mai'r BBC yw'r rheolydd a Chi yw'r prosesydd at ddibenion y Gyfraith Diogelu Data a'ch Archeb Chi.



© BBC 2026

29.5 Mewn perthynas ag unrhyw ddata personol (gan gynnwys data personol sy'n ymwneud â chyflogeion, cyflenwyr, cynulleidfaoedd neu drydydd partïon eraill y BBC ("**Data Personol y BBC**")) rhaid i chi wneud y canlynol:

(a) prosesu Data Personol y BBC yn unol â chyfarwyddiadau'r BBC;

(b) sicrhau bod pawb sydd ag awdurdod i brosesu Data Personol y BBC, gan gynnwys Chi eich hun, yn rhwym wrth ddyletswydd cyfrinachedd;

(c) sicrhau bod Data Personol y BBC yn cael ei brosesu'n ddiogel bob amser, gan ystyried natur, cwmpas, cyd-destun a dibenion y prosesu yn ogystal â'r risg o amrywio tebygolrwydd a difrifoldeb hawliau a rhyddid unigolion;

(d) cydymffurfio â holl Ofynion Diogelu Gwybodaeth y BBC i Drydydd Partïon, fel y byddant yn cael eu diwygio o bryd i'w gilydd yn ôl disgresiwn llwyr y BBC;

(e) peidio â chyflogi Prosesydd arall i ymgymryd â phrosesau penodol;

(f) helpu'r BBC â'r canlynol: (1) ymateb i unrhyw gais gan destun data; (2) delio â thor diogelwch data personol yn unol â rhwymedigaethau'r BBC o dan y Gyfraith Diogelu Data; a (3) cydymffurfio ag unrhyw rwymedigaethau y mae'r Gyfraith Diogelu Data yn eu gosod ar y BBC, gan gynnwys cynnal asesiad o effaith diogelu data;

(g) rhoi gwybod i'r BBC ar unwaith, ac yn sicr, cyn pen 24 awr ar ôl i Chi ddod i sylweddoli neu gredu'n rhesymol y bu achos o dor diogelwch data personol mewn perthynas â Data Personol y BBC.

(h) ar gais ysgrifenedig y BBC, dileu neu ddychwelyd Data Personol y BBC (ac unrhyw gopïau ohono) i'r BBC ar ddiwedd Eich ymgysylltiad;

(i) cadw cofnodion a gwybodaeth gyflawn a chywir i ddangos cydymffurfedd â'r cymal hwn a chaniatáu i'r BBC neu archwilydd dynodedig y BBC gynnal archwiliadau; a

(j) rhoi gwybod i'r BBC ar unwaith os byddwch Chi'n credu'n rhesymol bod unrhyw un o'r cyfarwyddiadau a roddwyd i Chi gan y BBC yn torri'r Gyfraith Diogelu Data.

29.6 Ni fyddwch yn gwneud y canlynol:

(a) datgelu unrhyw Ddata Personol y BBC i unrhyw un nad yw wedi'i awdurdodi gan gyfraith neu gan bolisi'r BBC i gael gweld yr wybodaeth honno; a

(b) ac eithrio fel y mae'r Contract hwn yn caniatáu, defnyddio Data Personol y BBC at unrhyw ddibenion eraill, gan gynnwys dibenion marchnata.

29.7 Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, nid ydych Chi a'r BBC yn rheolyddion ar y cyd, ac ni fydd Erthygl 26 GDPR/GDPR y DU yn berthnasol.



© BBC 2026

**30. Dehongliad**

30.1 Ni fydd penawdau'r cymalau na nodiadau esboniadol yn effeithio ar y dehongliad o'r Contract hwn.

30.2 Oni bai fod y cyd-destun yn ei gwneud yn ofynnol fel arall, mae geiriau yn y modd unigol yn cynnwys y lluosog, a'r lluosog yn cynnwys yr unigol, a bydd cyfeiriad at un rhywedd yn cynnwys cyfeiriad at y rhywedd arall. Mae cyfeiriad at ysgrifennu yn cynnwys e-bost. Mae cyfeiriad at statud neu ddarpariaeth statudol yn gyfeiriad ati fel y bydd yn cael ei diwygio, ei hymestyn neu ei hailddeddfu o bryd i'w gilydd; ac mae'n cynnwys pob is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y statud neu'r ddarpariaeth statudol honno. Bydd y geiriau "yn cynnwys" neu "gan gynnwys" yn golygu heb gyfyngiad, ac ni fwriedir iddynt sefydlu rhestr ddiffiniol oni nodir yn wahanol.

**31. Cytundeb cyflawn**

31.1 Bydd y Contract hwn bob amser yn drech na'r holl delerau ac amodau eraill y gallech Chi honni eu bod yn berthnasol. Dim ond drwy gytundeb ysgrifenedig ymlaen llaw rhwng y partïon y gellir diwygio'r Contract hwn.

31.2 Ac eithrio mewn perthynas â chamliwio twyllodrus, mae'r Contract hwn yn sefydlu dealltwriaeth lwyr y partïon mewn perthynas â'r Archeb ac yn disodli'r holl gytundebau, negodiadau a thrafodaethau blaenorol rhwng y partïon.

31.3 Mae unrhyw atodlenni yn rhan o'r Contract hwn.

**32. Gwahoddiad i lenwi ffurflen monitro amrywiaeth Diamond**

32.1 Mae darlledwyr a'r Rhwydwaith Amrywiaeth Creadigol (CDN) yn monitro amrywiaeth ar deledu'r DU drwy Diamond. Mae buddiant dilys i gasglu gwybodaeth am amrywiaeth yn ein diwydiant, ac os byddwch Chi'n rhoi Eich enw a'ch cyfeiriad e-bost bydd y BBC yn eu cynnwys mewn system o'r enw Silvermouse a byddwch Chi'n cael gwahoddiad i ddarparu eich nodweddion amrywiaeth Chi, neu os ydych Chi'n rhiant neu'n warcheidwad i gyfrannwr sy'n blentyn o dan 18 oed, i ddarparu nodweddion amrywiaeth Eich plentyn, ac mae'r nodweddion y gofynnir i Chi eu darparu yn dibynnu ar oedran. Y darlledwyr a CDN, fel rheolyddion data, sy'n gyfrifol am y data hwn a byddant yn cadw Eich enw a chyfeiriad e-bost at y diben hwn ar Silvermouse gyhyd ag y byddant yn monitro amrywiaeth. Mae gwybodaeth hefyd yn cael ei chasglu ynglŷn â chanfyddiad gwylwyr o amrywiaeth ar y sgrin. Mae rhagor o wybodaeth am Diamond ar gael yma. Os byddai'n well gennych Chi beidio â bod yn rhan o broses Diamond, rhowch wybod i'ch cyswllt Chi yn y cynhyrchiad cyn pen 7 diwrnod ar ôl dyddiad cyhoeddi'r Contract hwn.

**33. Cyfraith lywodraethol**

33.1 Caiff y Cytundeb hwn ei lywodraethu a'i ddehongli yn unol â chyfreithiau Cymru a Lloegr, ac mae pob parti'n ildio i awdurdodaeth benodol Llysoedd Cymru a Lloegr.


© BBC 2026